

MYNYDDOEDD CAMBRIA I'R ARFORDIR: DATBLYGU WELEDIGAETH AR GYFER EIN TIR A MÔR

Beth a pham?

Mae Menter Mynyddoedd Cambria a'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn dymuno cefnogi economi lleol cryfach, cymunedau, a natur. Gyda hyn yn gyffredin, ynghyd â'u gorgyffyrddiad mewn ardaloedd daearyddol, fe benderfynwyd i gydweithio ar y darn yma o waith.

Fel rhan o'u gwaith i gynllunio ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol, roedd Menter Mynyddoedd Cambria a'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn awyddus i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ein tir a'n môr sy'n cael ei rannu gan ffermwyr a rheolwyr adnoddau naturiol eraill. Gall natur fynd ar goll weithiau wrth ystyried adfywiad economaidd a chymunedau, ac roedd O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria ill dau eisiau rhoi hwn wrth wraidd yr adroddiad hwn, heb golli golwg ar y ddau elfen arall.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio:

- Beth yw'r berthynas ar hyn o bryd rhwng busnes a natur?
- Beth yw dyheadau busnesau ar gyfer y dyfodol?
- A fydd natur yn elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol os daw'n weithredol?
- Sut gall y mentrau cefnogi datblygu busnes a fydd yn elwa'n gadarnhaol ar natur, y gymuned a'r economi?

Sut?

Fe apwyntiwyd Nearly Wild gan Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr i wneud yr ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2021. Roedd y tîm hwn yn cynnwys nifer o gyfswelwyr lleol, gyda'r ymchwil yn cynnwys:

- Creu cronfa sylfaenol o dros 100 o fusnesau yn gweithio gydag adnoddau naturiol.
- Trafodaeth unigol bersonol gyda 50 o'r busnesau hyn (anelu at gyrhaeddiad ar draws yr ardal, maint a math o fusnes).
- Cyfarfod personol gyda 25 o ffermwyr a chyfarfod ar lein gyda 4 o fusnesau twristiaeth.
- Cydweithio gydag O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria gan gynnwys dadansoddiad o'r casgliadau.

Crynodeb o'r casgliadau

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar fusnesau sydd â pherthynas ag adnoddau naturiol lle mae'r berthynas yn sylfaenol i'w gweithgaredd masnachol. Busnesau sydd â pherthynas uniongyrchol gydag adnoddau naturiol trwy eu defnyddio neu eu cynaeafu, a busnesau sydd â pherthynas anuniongyrchol ond lle mae'r adnoddau naturiol dal yn graidd i'r model busnes.

Roedd yr ymchwil yn archwilio sut mae pobl sy'n rheoli'r busnesau hyn yn gweld ac yn deall y berthynas rhwng eu busnes a natur; sut mae'n rhyngweithio gyda'r gymuned a'r tirwedd mae'r busnes yn gweithredu ynddo, a'r cyfleoedd a'r heriau maent yn gweld ar gyfer dyfodol eu busnes a'u perthynas â natur.

Darganfu'r ymchwil bod pob busnes yn gallu rhoi nifer o esiamplau o'r ffyrdd maent yn cyfoethogi natur a bod awydd i wneud mwy. Trwy weithio â busnesau sydd wedi eu lleoli o fewn amgylchedd tirwedd a morol, roedd Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn gallu sianelu egni a gweithgarwch yr unigolion sy'n rhedeg y busnesau, at elw y naill a'r llall. Mae nifer o'r busnesau hyn yn cynllunio ar gyfer y dyfodol hir dymor oherwydd eu bod yn cynrychioli bywoliaethau pobl (an aml ar draws genhedlaethau'r gorffennol a'r dyfodol), felly maent yn cynnig cyfrwng hir dymor er mwyn darparu buddion i'r gymuned, yr economi lleol, natur a'r hinsawdd.

Cred y tîm bod awydd ymhlith y busnesau i gydweithio, gyda'i gilydd, a gyda Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr, er mwyn datblygu'r syniadau ymhellach a godwyd yn ystod y gwaith hwn. Fe fydd hwn yn cefnogi'r tir cyffredin sy'n bodoli; i feithrin cymunedau lleol, i gael tirwedd cynhyrchiol, i alluogi natur i wella ac i chwarae rhan cadarnhaol wrth ymgodymu â newid hinsawdd.

Mae darganfyddiadau'r ymchwil wedi'u datblygu i gyfres o gysyniadau prosiect sy'n adlewyrchu'r adborth o'r cyfweliadau a gweithdai.

CYSYNIAD ARFAETHDIG Y PROSIECT

THEMA'R PROSIECT	ATEB/CYSYNIAD Y PROSIECT	CANLYNIADAU/EFFAITH
Ymchwil adnodd naturiol rheolwyr-cynhwysol	<p>Ymchwil 'blaenoriaeth pwnc' ac arweinwyr gan ffarmwr/rheolwr tir sy'n ymgorffori eu gwybodaeth leol.</p> <p>Partneriaeth a chydweithredu ag arbenigwyr technol ac adnoddau.</p> <p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cyfraniad sy'n seiliedig ar wybodaeth i ddatblygu mecanwaith cyllido a pholisi.</p>	<p>Rheolwyr tir yn dechrau dylanwadu polisi amaeth-amgylchedd, gan deimlo'n werthfawr ac yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.</p> <p>Rheolwyr tir yn rhan o berchnogaeth y data sy'n berthnasol i'w daliadau.</p> <p>Mae'r gronfa o ddata yn tyfu ar gyfer pynciau sydd â blaenoriaeth i reolwyr tir, a all gael eu rhannu er lles ehangach.</p>
Gwelliannau natur ar lefel y dirwedd	<p>Dull adnabod ardaloedd cydweithredol addas, e.e. dalgylch, neu grŵp cydweithredol o ffermwyr sydd eisoes mewn bodolaeth.</p> <p>Prosiect i ymgodymu a blaenoriaeth natur sy'n bwysig yn lleol (gan adnabod yr angen am gefnogaeth hir dymor, aml-flynyddol).</p> <p>Cyfle i arbrofi gyda datrysiadau mwy arloesol ac efallai mwy mentrus.</p>	<p>Mae tirfeddianwyr/rheolwyr tir yn allweddol ar gyfer gwelliannau natur, tra hefyd yn cynnal gweithrediadau masnachol cadarn.</p> <p>Newidiadau cadarnhaol mesuroi i flaenoriaeth natur benodol. Dysg werthfawr am ddulliau newydd addas er mwyn gwelliannau natur.</p>
Cefnogi busnesau i fod yn rhan o'r datrysiad carbon	<p>Cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir i ddarparu datrysiadau carbon (lleihau a dal)</p> <p>Ymchwilio'r potensial i ddatblygu cadwynau cyflwyni lleol ac economi cylchol lleol cryfach.</p> <p>Cymryd rhan flaenllaw mewn ennill gwybodaeth am ddatrysiad carbon a'i drosglwyddo i'r gymuned leol, drwy gefnogi ymchwil, arbrofi a lledaenu'r wybodaeth.</p> <p>Ymchwilio sut y gall Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn chwarae rhan fwy uniongyrchol yn natrysiad carbon, e.e. y potensial ar gyfer rôl broceriaeth; mecanwaith i ddod a chefnogwyr (unigolion neu fusnes) a thirfeddianwyr/rheolwyr at ei gilydd i gyfuno adnoddau ac i weithio gyda'i gilydd tuag at nifer o ganlyniadau gan gynnwys gwelliant natur a dal a storio carbon.</p>	<p>Mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cynyddu am ran pori a phrofa mewn dal a storio carbon, sy'n berthnasol i'r ardal leol.</p> <p>Mae tirfeddianwyr a rheolwyr yn bartneriaid er mwyn ennill yr wybodaeth yma.</p> <p>Darganfod datrysiadau carbon lleol sy'n gweithio i ffermwyr, rheolwyr tir a'r gymuned leol, ynghyd a'r gymuned ehangach trwy gyfrannu at ymgodymu a newid hinsawdd.</p>
Cynhyrchedd mewn sawl ffordd	<p>Adeiladu rhwydwaith gweithredol o gynhyrchwyr lleol er mwyn hyrwyddo a sylweddoli datblygiad y gadwyn gyflenwi leol.</p>	<p>Gall prynwyr (unigol ac ar raddfa fwy) cael gafael yn rhwydd ar gynnyrch lleol.</p> <p>Daw'r ardal yn adnabyddus am economi ar sail natur, 'natur gadarnhaol'.</p>

THEMA'R PROSIECT	ATEB/CYSYNIAD Y PROSIECT	CANLYNIADAU/EFFAITH
	Darparu mecanwaith cefnogi ar gyfer arbrofi gyda ffyrdd newydd o weithio, uwchraddio a dysgu.	Mae arbrofi yn arwain ar ddatrysiad effeithiol i fusnesau, natur a hinsawdd.
Adeiladu a hyrwyddo'r naratif	<p>Cynnwys busnesau i adeiladu a chynnal sylfaen dystiolaeth, fel ffynhonnell ar gyfer negesau'n gywir.</p> <p>Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn rhagweithiol i greu negeseua ac i adeiladu naratif newydd.</p> <p>Darparu ffordd i fusnesau gymryd rhan mewn dadleuon a phenderfyniadau; nodi sianelu effeithiol.</p>	<p>Rhanddeiliaid allweddol a mwy o'r cyhoedd yn deall ystyron ynghylch rheolaeth dir, natur, cynhyrchu bwyd ayyb.</p> <p>Datrys problemau ar lefel llawr gwlad yn cyrraedd ac yn dylanwadu'n ehangach, gan werthfawrogi gwybodaeth busnesau.</p> <p>Mae gwybodaeth gywir ar gael yn y maes cyhoeddus.</p> <p>Busnesau yn teimlo bod ganddynt lais ac yn gallu cyflwyno ymatebion ac atebion i'r cyrff perthnasol, sefydliadau, y cyfryngau ac asiantaethau.</p> <p>Gweld y prosiect fel ffynhonnell ganolog am wybodaeth.</p>
Offer, deunydd ac arferion 'ecogyfeillgar'	<p>Adnabod cynnyrch/cadwyn gyflenwi lle all dull cydweithredol helpu e.e. prynu cyfunol, chwilio am gyngor, creu arbrofi.</p> <p>Hwyluson rhannu dysgu rhwng busnesau am yr hyn sy'n gweithio.</p> <p>Defnyddio'r hyn a ddysgir o hwn i gyfrannu i'r naratif sy'n cael ei ddatblygu ar sut mae busnesau lleol yn llesol i fyd natur.</p>	<p>Chwilio am ddatrysiadau newydd sy'n galluogi busnesau i weithredu mewn ffyrdd sy'n bositif i natur a'r amgylchedd, rhannu dysgu ac yn cael eu mabwysiadu yn ehangach ar draws yr ardal. Tra hefyd yn darparu budd masnachol.</p> <p>Lles mesurol i natur lleol a'r amgylchedd.</p> <p>Cefnogi busnesau wrth iddynt addasu i effeithiau newid hinsawdd a'u galluogi i gyfrannu tuag at leddfiadau.</p>

Beth Nesaf

Mae'r ymchwil hwn wedi bod yn annatod wrth hysbysu'r broses gydgyllunio O'r Mynydd i'r Môr a blaen-gynllunio Menter Mynyddoedd Cambria. Er mwyn darllen yr adroddiad hwn yn llawn ewch i wefannau'r prosiect. Am fwy o wybodaeth ar waith y prosiectau hyn, cysylltwch â:

info@summit2sea.wales

mynyddoeddcambrianmountains@gmail.com

Diolch

Diolch i bawb a rhoddod eu hamser i'r ymchwil hwn.

